

Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak

This statement will be updated daily at midday

Statement: Updated at 12pm on Sunday 03 January 2021

Dr Giri Shankar, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak response at Public Health Wales, said:

"We wish everyone a Happy New Year, and hope that 2021 will be a better year for us all. With vaccinations for COVID-19 progressing, we welcome the announcement by the Welsh Government of the roll-out of the second Coronavirus vaccine (from Oxford/AstraZeneca) in Wales.

"The Joint Committee on Vaccination and Immunisation (JCVI) has issued a short [statement](#) outlining the case for optimising the vaccine programme within the UK to achieve maximum short term impact.

"Vaccinating the adult population of Wales, to protect people from severe disease, is a significant task, and the vaccine will take time to reach everyone. The epidemiology of COVID-19 throughout the UK in late 2020 showed a clear need for rapid, high levels of vaccine uptake among vulnerable persons.

"The JCVI supports a two-dose vaccine schedule for the Pfizer-BioNTech and AstraZeneca vaccines. Given the data available, and evidence from the use of many other vaccines, Public Health Wales fully supports the JCVI advice to increase a maximum interval between the first and second doses of 12 weeks for both vaccines.

"It can be assumed that protection from the first dose will wane in the medium term, and the second dose will still be required to provide more durable protection. The JCVI advises initially prioritising delivery of the first vaccine dose as this is highly likely to have a greater public health impact in the short term and reduce the number of preventable deaths from COVID-19.

"Members of the public should not to phone your GP, pharmacy or hospital asking when they will get a vaccine. When someone is in one of the groups eligible for the vaccine, they will be invited to attend a dedicated clinic which will have been set up to ensure patient safety and that of the healthcare professionals.

"The effects of the vaccines may not be seen nationally for some time, and with Wales at alert level four we must continue to follow the advice on keeping Wales safe. Stay at home, meet only the people you live with, maintain social distancing, wash your hands regularly, and work from home if you can.

"As indicated by the Welsh Government, the new restrictions were brought forward due to the identification of a new more transmissible variant of Coronavirus. Public Health Wales has been working with UK partners to investigate and respond to this variant.

"It is normal for viruses to undergo mutations, and we expect this to happen. Although the variant is easier to transmit, there is currently no evidence that it is more severe.

"We are reminding people that all current guidance relating to Coronavirus continues to apply to the new variant, including advice relating to symptoms, social distancing, self-isolation, and vaccination.

"The new variant shows up as positive in Public Health Wales' existing Coronavirus tests, and people must continue to seek a test in the usual way if they develop Coronavirus symptoms.

"If you or a member of your household develop a cough, fever or change in sense of taste or smell, you must self-isolate immediately and book a free Coronavirus test, either by calling 119 or [by clicking here](#).

"If you are due to travel out of the UK, please be aware of the changing situation and keep an eye on the [FCO website](#) for up to date details.

"Due Bank Holiday arrangements, the data released today - Sunday January 3 - will be as at 9am on 2 January. It is important to note that these data will cover a 48 hour period (from 9am on 31 December to 9am 2 January) instead of the usual 24 hour period and so should be interpreted with caution, as it is likely to be around double the usual 24 hour value.

"This will not affect individuals receiving their results, and anyone who tests positive will be contacted by their local authority's Test, Trace, Protect team in the usual way.

"The Public Health Wales public-facing data dashboard is a rapid reporting tool which is subject to correction and reconciliation. Official statistics are provided by the Office of National Statistics.

"Public Health Wales urges everyone to follow the rules, to avoid transmission of Coronavirus and to protect everyone in our communities, including the most vulnerable."

Datganiad: Diweddarwyd 12yh Dydd Sul 03 Ionawr 2021

Dywedodd Dr Giri Shankar, Cyfarwyddwr Digwyddiadau ar gyfer yr ymateb i'r achosion o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

"Rydyn ni'n dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb, ac yn gobeithio y bydd 2021 yn flwyddyn well i ni i gyd. Gyda brechiadau ar gyfer COVID-19 yn mynd rhagddynt, rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gyflwyno'r ail frechlyn Coronavirus (o Rydychen / AstraZeneca) yng Nghymru.

"Mae'r Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI) wedi cyhoeddi datganiad byr yn amlinellu'r achos dros fanteisio i'r eithaf ar y rhaglen frechu yn y DU er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl yn y tymor byr.

"Mae brechu poblogaeth oedolion Cymru, er mwyn amddiffyn pobl rhag afiechyd difrifol, yn dasg sylweddol, a bydd y brechlyn yn cymryd amser i gyrraedd pawb. Dangosodd epidemioleg COVID-19 ledled y DU ddiwedd 2020 bod angen clir am lefelau cyflym, uchel o frechlynnau ymhlith pobl sy'n agored i niwed.

"Mae'r JCVI yn cefnogi amserlen frechu dau ddos ar gyfer brechlynnau Pfizer-BioNTech ac AstraZeneca. O ystyried y data sydd ar gael, a thystiolaeth o ddefnyddio llawer o frechlynnau eraill, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llwyr gefnogi cyngor y JCVI i gynyddu'r bwlch mwyaf rhwng y dos cyntaf a'r ail ddos o 12 wythnos ar gyfer y ddau frechlyn.

"Gellir tybio y bydd yr amddiffyniad o'r dos cyntaf yn gwario yn y tymor canolig, a bydd yr ail ddos yn ofynnol o hyd i ddarparu amddiffyniad gwytnach. Mae'r JCVI yn cynghori i ddechrau blaenoriaethu rhoi'r dos cyntaf o'r brechlyn gan fod hyn yn debygol iawn o gael mwy o effaith ar iechyd y cyhoedd yn y tymor byr a lleihau nifer y marwolaethau y gellir eu hatal o COVID-19.

"Ni ddylai aelodau'r cyhoedd ffonio eu meddyg teulu, eu fferyllfa na'u hysbyty yn gofyn pryd cânt frechlyn. Pan fydd rhywun yn un o'r grwpiau sy'n gymwys i gael y brechlyn, byddant yn cael gwahoddiad i ddod i glinig pwrpasol a fydd wedi'i sefydlu i sicrhau diogelwch cleifion a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

"Efallai na fydd effeithiau'r brechlynnau'n cael eu gweld yn genedlaethol am beth amser, a gyda Chymru ar lefel rhybudd pedwar rhaid i ni barhau i ddilyn y cyngor ar gadw Cymru'n ddiogel. Arhoswch gartref, cwrdd â'r bobl rydych chi'n byw gyda nhw yn unig, cadwch bellter cymdeithasol, golchwch eich dwylo'n rheolaidd, a gweithio gartref os yw hynny'n bosib.

"Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, cafodd y cyfyngiadau newydd eu symud ymlaen yn sgil nodi amrywiolyn mwy trosglwyddadwy o'r Coronafeirws. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid yn y DU i ymchilio i'r amrywiolyn hwn ac ymateb iddo.

"Mae'n arferol i feirysau fod yn destun mwntaniad, ac rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd. Er bod yr amrywiolyn yn haws i'w drosglwyddo, nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd ei fod yn fwy difrifol.

"Rydym yn atgoffa pobl bod yr holl ganllawiau presennol sy'n ymwneud â'r Coronafeirws yn parhau i fod yn berthnasol i'r amrywiolyn newydd, gan gynnwys cyngor sy'n ymwneud â symptomau, cadw pellter cymdeithasol, hunanynysu, a brechu.

"Mae'r amrywiolyn newydd yn ymddangos yn bositif ym mhroffion presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru, a rhaid i bobl barhau i geisio prawf yn y ffordd arferol os byddant yn datblygu symptomau Coronafeirws.

"Os byddwch chi neu aelod o'ch cartref yn datblygu peswch, twymyn neu newid o ran blasu neu arogli, rhaid i chi hunanynysu ar unwaith a threfnu prawf Coronafeirws am ddim, naill ai drwy ffonio 119 neu [drwy glicio yma](#).

"Os ydych i fod i deithio allan o'r DU, byddwch yn ymwybodol o'r sefyllfa sy'n newid a chadwch lygad ar [wefan FCO](#) i gael y manylion diweddaraf.

“Oherwydd trefniadau Gŵyl y Banc, mae’r data a ryddhawyd heddiw – dydd Sul Ionawr 3 – yn ddata am 9am ar 2 Ionawr. Mae’n bwysig nodi bod y data hyn yn cwmpasu cyfnod o 48 awr (rhwng 9am ar 31 Rhagfyr a 9am ar 2 Ionawr) yn lle’r cyfnod arferol o 24 awr ac felly dylid eu dehongli’n ofalus, gan eu bod yn debygol o fod tua dwbl y gwerth 24 awr arferol.

“Ni fydd hyn yn effeithio ar unigolion sy’n cael eu canlyniadau, a bydd tîm Profi, Olrhain, Diogelu'r awdurdodau lleol yn cysylltu ag unrhyw un sy'n profi'n bositif yn y ffordd arferol.

“Mae dangosfwrdd data Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n wynebu'r cyhoedd yn offeryn adrodd cyflym sy'n destun cywiro a chysoni. Mae ystadegau swyddogol yn cael eu darparu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn annog pawb i ddilyn y rheolau, i osgoi trosglwyddo Coronafeirws ac i amddiffyn pawb yn ein cymunedau, gan gynnwys y mwyaf agored i niwed.”



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru

Public Health
Wales